

ADNABOD EIN GILYDD

Ar gyfer y bedwaredd yn y gyfres hon o sgrysiâu ag aelodau o Gymdeithas Bob Owen bu Huw Ceiriog Jones yn holi tipyn ar un arall o'i gyfeillion, un y mae yn gweld ei dŷ wrth agor ei lygaid am y tro cyntaf bob bore, sef yr amryddawn **HYWEL ROBERTS**.

H.C.J.: Yn y lle cyntaf, rwy'n siŵr y bydd darllenwyr Y Casglwr am uno gyda mi i'ch llongyfarch ar yr anrhydedd a ddaeth i'ch rhan yn ddiweddar, sefeich penodi i Gadair Bersonol gan Brifysgol Cymru am eich cyfraniad i ddatblygiad yr Adran Astudiaethau Gwybodaeth a Llyfrgellyddiaeth yn Aberystwyth, am eich cyfraniad i'r proffesiwn llyfrgellyddol yng Nghymru, ac am eich cyfraniad i faes llenyddiaeth Gymraeg. Rwy'n siŵr eich bod yn falch o'r anrhydedd hon?

H.R.: Ydw, wrth reswm, yn bennaf oherwydd fod Prifysgol Cymru a Phrifysgol Aberystwyth, drwy eu gweithred, yn cydnabod dilysrwydd academaidd y disgyblaethau llyfryddol a llyfrgellyddol, a hefyd yn cydnabod cyfraniad Coleg Llyfrgellwyr Cymru dros y blynyddoedd. Ond rwy'n prysuro i ddweud mai fy nghydweithwyr yn yr Adran sy'n bennaf haeddu'r anrhydedd, nid y fi! A gwell peidio anghofio cyfraniad y myfyrwyr fu drwy'r Coleg a'r Adran 'chwaith, bu pobl ardderchog yn eu plith, yn awr yn gwneud gwaith gwych mewn amryfal feysydd.

H.C.J.: Fel mab y mans mae'n siŵr fod llyfrau yn gyfarwydd i chwiri erioed?

H.R.: Rwy'n ystyried i mi gael magwrfa freintiedig mewn llawer ystyr, a mynediad hwylus i lyfrgell Gymraeg gyfoethog fy nhad ymhlith y breintiau niferus. Mae gen i gof ei bod yn haws cael caniatâd i ddarllen neu fenthyg llyfr oddi yno na chael caniatâd i wyllo'r teledu newydd yn y llofa! Ac o edrych nôl, 'nhad a mam oedd yn iawn! Byth oddi ar hynny fe fûm yn brynwr llyfrau seilog, am fy mod wedi fy nenu gan wneuthuriad a gwedd a chynllun y llyfr yn aml iawn, neu am fy mod yn teimlo y dylwn fod yn berchen ar lyfr o'r fath. Eilbeth weithiau yw eu darllen.

H.C.J.: Graddio yn y Gymraeg yn Aberystwyth ac M.A. ar noddwyr



beirdd Sir Aberteifi — pam troi at lyfrgellyddiaeth?

H.R.: Mae yna berthynas glôs mewn gwirionedd, er mai rhesymau hollol ymarferol oedd gen i ar y pryd — roedd angen gwaith a swydd arnaf, ac yr oedd yn fyd oedd yn prysur ddatblygu, yn arbennig yng Nghymru. Yr wyf o natur chwilyfrdig, fe'm denwyd gan yr agwedd honno ar ymchwilio (diolch byth fy mod wedi cael disgyblaeth lem Yr Athro D. J. Bowen i'm cadw ar y llwybr cul), ond fe ddechreuais ymddiddori hefyd yn y ffynonellau a'r cyfeirlyfrau fel man cychwyn pob ymchwil, a theimlo y gallwn gyfrannu rhyw gymaint i'r cyfeiriadau hynny yn y man. Tua'r adeg honno hefyd y deuthum ar draws *Five Hundred years of Printing* gan S. H. Steinberg, a chan fod hwnnw'n un o lyfrau gosod y cwrs mewn llyfrgellyddiaeth, roeddwn wedi fy nal. Ond yr oedd dau ddylanwad trwm arall

hefyd, David Jenkins, y Llyfrgellydd Cenedlaethol ar y pryd, a chyfaill cywir iawn hyd heddiw, a'r diweddar Alun R. Edwards — rhyngddynt yr oedd y ddau wedi dewis fy ngyrfa i mi, a phwy oeddwn i i anghytuno â dau gawr? Bûm yn greadur ufudd erioed!

H.C.J.: Mae mwy a mwy o ddeunyddiau ar wahân i lyfrau i'w cael mewn llyfrgelloedd erbyn hyn. A yw'r llyfr yn mynd i barhau?

H.R.: Mae hyn yn fy atgoffa am y darogan fu rhyw ddegawd neu fwy yn ôl am ddyfodiad y 'byd di-bapur' wedi datblygiad y cyfrifiadurol personol — welsoch chi'r fath fyd erioed? Na finnau 'chwaith! Ond mae yna newidiadau chwyldroadol ar y gweill, yn bennaf oherwydd twf y dechnoleg delathrebol yn hytrach na difodiant argraffu fel y cyfryw. Gan ei bod yn bosib anfon llun a sain ar hyd y gwifrau bellach yn ogystal â'r gair, neu eu cyfuno a'u cyd-gyhoeddi mewn

un cyfrwng, fe fydd cyhoeddi electronig aml-gyfrwngol yn ennill tir mewn sawl cyd-destun, nid am fod y cyfrwng yn un gwell na'r un traddodiadol o reidrwydd, ond am fod economeg y peth yn fwy deniadol. Ac ni fedrwyd osgoi problem cost storio ac anfon pethau mor swmpus â llyfrau, nac arafwch ac anhwylystod hynny. Mae dynolryw, rhan sylweddol ohoni o leiaf, wedi ei hudo bellach gan y dechnoleg — dyna paham y mae cymaint o bobl yn treulio cymaint o amser mewn caffis cyfrifiadurol yn hwyllo'r Internet uwch eu brechdanau. Ond fe erys llyfrau, i ryw ddiben neu'i gilydd, ond nid i bob diben, gallwn fod yn lled sicr o hynny.

H.C.J.: Deallaf eich bod wedi astudio bywyd a gwaith Gwenogwryn Evans yn ddiweddar. Pam Gwenogwryn?

H.R.: Dim ond megis cychwyn y mae'r gwaith. Mae fy niddordeb ynddo yn deillio o'r cyfuniad o bethau y bu'n ymwneud â nhw — llyfrydda, mynegeio, argraffu, llyfrgelloedd ac yn y blaen. Ond a fuystal camp erioed ag un Gwenogwryn yn ei ddydd yn llunio a chynhyrchu'r gyfres *Old Welsh Texts*, yn mynegeio llawysgrifau Cymru ar gyfer ei *Reports* i'r Historical Manuscripts Commission ac yn sicrhau bod llawysgrifau Peniarth yn cael eu diogelu yn y Llyfrgell Genedlaethol am byth? Ac mae e'n berson hynod ddiddorol hefyd, ac yn Gardi! Efallai iddo gael ei esgeuluso — nid yw ei enw yn ymddangos yn *Llyfryddiaeth Llenyddiaeth Gymraeg* er cymaint ei gyfraniad. Tybed ai oherwydd mai llyfryddwr, mynegeiwr a chatalogwr ydoedd yn bennaf? Dim ond yn ddiweddar iawn mae gweithgareddau o'r fath wedi eu parchuso a'u cydnabod. A dyna gwblhau f'atebion yn gylch taclus!

DAVID HARBOURNE
LLYFRAU

44 Bishops Walk, Llandaf
Caerdydd CF5 2HE
Ffon: (01222) 561154

*Dewis helaeth o lyfrau ail-law
Cymraeg a Chymreig ar werth
bob amser. Bob amser yn barod
i brynu hefyd.*